**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 21ain Gorffenaf 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 35. <u>YMDDIHEURIADAU</u>

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Mellor, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts a Mrs M. Walker.

## 36. <u>COFNODION</u>

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Gorffennaf 2021 - Rhifau Cofnod 19-34

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Gorffennaf 2021 - Rhifau Cofnod 5-8

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Gorffennaf 2021 - Rhifau Cofnod 9-13

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

<u>Cadarnhau neu fel arall:</u>

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Gorffennaf 2021 - Rhifau Cofnod 15-25

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 37. <u>ADRODDIAD Y MAER</u>

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau ( a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf ac yn benodol soniodd am agoriad swyddogol Harrison's Bistro ar Ffordd Wellington, yr eodd wrth ei bodd yn ei weld ac wedi ei fwynhau.

## 38. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)</u>

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (30ain Mehefin i 13eg Gorffennaf 2021)*

| Rhif Taleb | Enwr Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1197 | Pottles Premier Plants Ltd | 10,129.85 | Planhigion yr haf |
| 1198 | BJS Solutions | 1,411.78 | Uwchraddio band eang a wi-fi |
| 1199 | Delwedd Ltd | 51.84 | Uwchraddio blychau ebost |
| 1200 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,625.00 | Ffi Rheoli CG Tynewydd – Ch 2 |
| 1201 | Y Cyngh. D. L. King | 433.34 | Lwfans y Maer 21/22 – taliad 1 o 3 |
| 1202 | Y Cyngh. D. L. King | 166.67 | Lwfans uwch rôl 21/22 – taliad 1 o 3 |
| 1203 | Y Cyngh. J. L. McAlpine | 133.34 | Lwfans Dirprwy Faer 21/22 – taliad 1 o 3 |
| 1204 | Y Cyngh. J. L. McAlpine | 166.67 | Lwfans uwch rôl 21/22 – taliad 1 o 3 |
| 1205 | Y Cyngh. M. Walker | 150.00 | Lwfan costau a threuliau 21/22 |
| 1206 | Y Cyngh. J. Hughes | 150.00 | Lwfans costau a threuiau 21/22 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£15,418.49** | |

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

## 39. <u>PERFFORMIAD BUDDSODDI 2021/22 (CHWARTER 1)</u>

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar sut roedd buddsoddiadau'r cyngor wedi perfformio rhwng 1af Ebrill 2021 a'r 30ain Mehefin 2021, a oedd wedi ennill £57.11 i gyd.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *derbyn yr adroddiad.*

## 40. <u>CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30 MEHEFIN 2021 (CHWARTER 1) AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar 30ain Mehefin 2021 a'r amcanestyniadau cyffredinol ar gyfer diwed y flwyddyn.
I grynhoi, gofynnwyd i'r aelodau nodi'r amrywiadau allweddol yn yr adroddiad, y diffyg a ragwelwyd o £65,070, y bwriad i ddefnyddio £100,000 o Gronfa Wrth Gefn Benthyciad SC2 a £20,000 o Gronfa Wrth Gefn CG Tynewydd, y bwriad i drosglwyddo £15,000 i'r Gronfa Prosiectau Mawr a £5,000 i'r Gronfa Etholiadau, ac yn olaf bod yr holl gronfeydd i'w hadolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 41. EITEM ER GWYBODAETH: GWARCHOD Y GLANNAU CANOL Y RHYL

Croesawodd y Maer Mr Wayne Hope (Rheolwr Risg Llifogydd CSDd), Mr Ian Beckett (Balfour Beatty) a Ms Corinne Marti a Mr Nicholas Price (Mott MacDonald) i'r cyfarfod a diolch iddynt am fynychu ar fyr rybudd.

Esboniodd Mr Hope bod y bwlch yng nghanol yr amddiffynfeydd morol i ddwyrain a gorllewin yr arfordir yn gadael y Rhyl yn agored i lifogydd yn y dyfodol gan fod yr hyn a oedd yno ar hyn o bryd dros 100 mlwydd oed ac angen ei uwchraddio.

Tybiwyd bod cyfanswm cost y cynllun amddiffyn canolog rhwng oddeutu £30 a £40 miliwn, gyda CSDd yn cyfrannu 15%.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi cychwyn y diwrnod hwnnw.

Dywedodd Ms Marti bod y cynllun yn y cyfnod dylunio a bod rownd bellach o ymgynghori statudol wedi ei gynllunio ar gyfer mis Medi.

Hysbydodd Mr Price yr aelodau bod creigiau mawr (arfogaeth greigiog) fel y rhai a oedd yn cael eu gosod i'r dwyrain o'r traeth, yn cael eu claddu yn y tywod, gan greu mur môr newydd, ynghyd â phromenâd concrid newydd (concrid mewn grisiau).

Mewn ymateb i ymholiadau gan yr aelodau, dywedodd Mr Hope:

- y tro diwethaf i'r promenâd ddioddef llifogydd oedd mis Rhagfyr 2013, gyda'r gwaethaf yn effeithio ardal Splash Point i'r dwyrain.

- Nid oedd colli tywod yn ddramatig gan fod y traeth yn ei ail-hawlio dros amser.

- Roedd gwarchod y traeth a thwristiaeth yn rhan fawr iawn o'r cynllun.

- Mewn gwrthgyferbyniad i sylwadau'r trigolion a roddwyd i rai cynghorwyr tref, roedd wdi derbyn adborth mwy positif na negyddol ynglŷn â defnyddio arfogaeth creigiau, gyda llawer yn gofyn am gael ei gyflwyno yn Nhywyn.

- Byddai'r rhan fwyaf o'r creigiau islaw'r traeth ac felly ni fyddent yn weladwy.

- Ni fu unrhyw sylwadau gwrthwynebol gan yr orsaf RNLI ac roedd ymgynghori yn mynd rhagddo gyda'r holl fusnesau bach / ciosgau ar y cynigion gan y byddai, mwy na thebyg, angen eu dymchwel.

- Y syniad oedd gwella mynediad i'r traeth o ganol y dref yn unol â'r cynllun adfywio mawr gan CSDd a oedd ar waith.

- Rydym fel rheol yn cael cwynion bod ein dogfennau ymgynghori yn cynnwys gormod o fanylion, nid y ffordd arall, ond byddai'n mynd yn ôl a chynnwys darluniau, fel yr awgrymwyd.

- Mae grwynau yn gwneud gwaith da o ran rheoli tywod, ond mae'r arfogaeth creigiau yn amddiffyn y traeth cyfan a'r ffrynt.

Sicrhaodd Mr Beckett yr aelodau na fyddai llai o fynediad at y traeth a bod Mott MacDonald wedi gwneud ymchwil helaeth ar y traeth ac y byddai codi'r promenâd yn gwella mynediad mewn gwirionedd.

Dywedodd Mr Hope ymhellach:

- Nad oedd y dyluniadau wedi eu gorffen a bod mynediad i bobl anabl yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gyda ramp yn ardal y SeaQuarium.

- Gobeithiwyd y byddai compownd presennol Balfour Beatty yn aros drwy gydol y gwaith gyda chompownd arall yn cael ei gynllunio ym maes parcio Quay St.

- Byddai ymyrraeth anferth tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo, ond na ellid osgoi hyn os oeddem o ddifrif ynglŷn ag amddiffyn y dref rhag llifogydd yn y dyfodol.

- Byddai'r Maes Parcio Canolog a'r Pentref yn aros.

- Byddent yn dod yn ôl at y Cyngor Tref os oedd unrhyw newidiadau mawr i'r cynlluniau.

Diolchodd y Maer i gynrychiolwyr CSDd, Balfour Beatty a Mott MacDonald, unwaith eto cyn iddynt adael y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) Bod Clerc y Dref yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor Tref a bod aelodau hefyd yn ymateb yn unigol.*

*(ii) Bod Clerc y Dref yn rhannu'r ddolen i'r ymgynghoriad ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor Tref i annog trigolion i gymryd rhan.*

**42. EGWYL MIS AWST**

Gofynnodd y Mader am gymeradwyaeth yr aelodau o ran trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad âr cadeiryddion priodol yn ystod egwyl mis Awst, fel a ganlyn:

Materion Dinesig - Maer a/neu Dirprwy Faer

Materion Cynllunio - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Pwyllgor CSG - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG

Holl Faterion Eraill - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

***PENDEFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau*

**43. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**44. CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD – TROSGLWYDDIAD ARFAETHEDIG I GYMDEITHAS GYMDEITHASOL Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 46 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Mai 2021, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *ar ôl canlyniad ymgynghoriad gyda grwpiau defnyddwyr y ganolfan, cyfarwyddo'r camau gweithredu canlynol:*

*(i) Clerc y Dref i hysbysu'r archwiliwr allanol yn ffurfiol o fwriad y cyngor i drosglwyddo'r ganolfan.*
*(ii) Clerc y Dref i wario mewn perthynas â'r ffioedd cyfreithiol angenrheidiol.*
*(iii) Dirprwyo telerau ac amodau'r trosglwyddiad i Is-bwyllgor Asesu Risg y cyngor.*

**45. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………